YSGOL GYNRADD CREIGIAU PRIMARY SCHOOL
ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR AR GYFER Y RHIENI
2009 / 2010

1. RHIFAU AR Y GOFRESTR

Class 7 : (Mr. P. Ivins)	31	(Y6)
Class 6 : (Mrs. Y. Davies)	22	(Y5)
Class 5 : (Mrs. J. Elliott)	29	(Y4)
Class 4 : (Ms. S. Griffin / Mrs. R. Hussey)	30	(Y3)
Class 3 : (Mrs. F. Willmott)	27	(Y2)
Class 2 : (Mrs. L. Lambert / Mrs. K.Rees)	28	(Y1)
Class 1 : (Mrs. C. Hurford)	28	(R)
Dosb. 6 : (Mrs. E. D. Evans)	22	(Y6)
Dosb. 5 : (Mrs. D. Kirkman)	24	(Y5)
Dosb. 4 : (Mr. L. Balbini)	31	(18Y4 + 13Y3)
Dosb. 3 : (Mrs. G. Griffith)	18	(Y2)
Dosb. 2 : (Mrs. E. Evans)	24	(Y1)
Dosb. 1 : (Mrs. L. Thomas)	24	(R)
Nursery: (Miss H. Davies)	29	(24N2 + 5N1)
Meithrin: (Miss H. Davies)	32	(24N2 +8N1)

	399	
	---	

2. STAFFIO

(a) Addysgu

Bydd Mrs. Yvonne Davies a Mrs. Lowri Lambert yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol ar ôl bod yn dysgu yn yr ysgol am nifer o flynyddoedd. Bu Mrs. Davies yn gweithio yn yr ysgol am ddwy flynedd ar hugain a Mrs Lambert am ugain mlynedd.

Dechreuodd Mrs. Davies weithio yma fel athrawes gyflenwi, gan fynd rhagddi i fod yn Bennaeth yr Adran Saesneg ac yn aelod o'r Uwch Dîm Reoli. Mae'n gyfrifol hefyd am DGCh ac e-efeillio. Hyd at y llynedd roedd hi'n gyfrifol am Fathemateg hefyd. Bu ei chyfraniad fel athrawes, arweinydd ac esiampl i bawb arall yn Ysgol Gynradd Creigiau yn anfesuradwy. A bu ei hymrwymiad i waith TGCh yn gyfrwng i'r ysgol gael cydnabyddiaeth gan BECTA ers 2006. Dyfernir gwobrwyon i ysgolion sy'n cyrraedd safon uchel o safbwynt sgiliau a defnydd o TGCh. Hi fu'n gyfrifol hefyd am gychwyn a pharhau i weithio ar ein papur newydd poblogaidd a llwyddiannus "Seren Creigiau Star" sy'n ymddangos bob tymor. Er nad yw'n siarad Cymraeg ei hunan, bu'n cydweithio'n ddiflino â Phenaethiaid yr Adrannau Cymraeg dros y blynyddoedd er mwyn creu ethos un ysgol a geir yn ein hysgol ddwyieithog a'n cynorthwyo i gyrraedd y nod o fod yn 'ficrocosm go iawn o gymdeithas ddwyieithog'. Hi sy'n cynrychioli aelodau staff yr ysgol ar fwrdd y llywodraethwyr ac mae'n sicrhau bod eu llais a'u buddiannau yn cael eu cynrychioli mewn modd proffesiynol a chywir.

Cychwynnodd Mrs. Lambert yma fel athrawes gyflenwi hefyd a hyd at fis Gorffennaf 2009, hi oedd ein Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig a bu'n cysgodi fel cydlynydd TGCh. Ers mis Medi 2009 bu'n gweithio yn rhan-

amser, gan rannu swydd â Mrs. Kirstie Rees. O dan ei harweiniad hi fel ein Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig, cafodd yr ysgol ei chydnabod am ei hethos gynhwysol. Adlewyrchir hyn gan y nifer o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n anfon eu plant i'r ysgol. Dim ond rhai ohonom sy'n ymwybodol o waith caled Mrs Lambert y tu ôl i'r llenni er mwyn sicrhau bod plant ag Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu trin yn deg ac yn derbyn yr holl gefnogaeth angenrheidiol er mwyn llwyddo. Fel athrawes ddosbarth mae'n drefnus ac yn batrwm o safbwynt arddangos arfer da.

Gwnaed y penodiadau parhaol canlynol ar gyfer mis Medi 2010:

Cyfnod Sylfaen yr Adran Saesneg: Mrs. Kirstie Rees

CA2 Adran Saesneg: Miss Buddug Harries

(b) Aelodau staff nad ydynt yn dysgu

- Mae Mrs. Siân Lewis yn ymddeol o'i swydd fel Cynorthwy-ydd Dysgu ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Bu Mrs Lewis yn gweithio gyda ni am ddeng mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu'n cynrychioli aelodau staff nad ydynt yn dysgu ar gorff llywodraethol yr ysgol a hi oedd y llywodraethwr a oedd yn gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen. Bu'n fodel rôl ardderchog i'w holl gydweithwyr o safbwynt ei hagwedd at y gwaith, ei charedigrwydd a'i phroffesiynoldeb. Ceir llawer o barch tuag at Siân ar sail ei phersonoliaeth a'i gallu fel Cynorthwy-ydd Dosbarth. Fel Ffysiotherapydd Siartredig, galwyd am ei gwasanaeth yn aml i'n cynghori ar faterion yn ymwneud â Chymorth Cyntaf. Dymunwn yn dda iddi, gan ddiolch am ei hymrwymiad a'i chyfeillgarwch yn ystod ei chyfnod yn yr ysgol.

- Yn sgîl cynllun Swyddi ar gyfer y Dyfodol y llywodraeth bu'n bosib i ni gyflogi dau Gynorthwy-ydd Dysgu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 am gyfnod o chwe mis. Mae Mrs Caron Evans yn gweithio yn yr Adran Saesneg a Mr Alun Battrick yn yr Adran Gymraeg.

- Ymunodd Mrs. Helen Terry â'r tîm gweinyddol a Mrs. Marguerite Devine fel goruchwylydd amser cinio.

3. Y CWRICWLWM

(a) Cyfnod Sylfaen

Dyma'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion 3-7 oed ac mae'n cyfuno cyfnod Blynyddoedd Cynnar (dan 5 oed) a Chyfnod Allweddol 1 (pump i saith oed).

Cyflwynwyd i:

Meithrin ym Medi 2008
Derbyn ym Medi 2009

Cyflwynir i:

Blwyddyn 1 ym Medi 2010
Blwyddyn 2 ym Medi 2011

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod rhagor o bwyslais ar ddysgu ar sail profiad, bod yn weithredol, a phwyslais ar sgiliau, agweddau cadarnhaol, hunan-barch a gweithgareddau yn yr awyr agored.

Am ragor o wybodaeth ewch i: www.wales.gov.uk/foundationphase

Cynhaliwyd nifer o gyrsiau ar gyfer aelodau staff fel rhan o hyfforddiant mewn swydd ar gyfer yr ysgol gyfan. Anerchwyd y rhieni gan Mrs. Suzanne Sarjeant, (Athrawes Ymgynghorol y Sir) a Mrs. Lynfa Thomas (Cydlynydd Cyfnod Sylfaen oddi mewn yr ysgol)

(b) Cwricwlwm 2008

Bellach cyflwynwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol diwygiedig i holl ddosbarthiadau Cyfnod Allweddol 2 ers mis Medi 2009. Cafodd pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol eu hadolygu a'u hailstrwythuro. Pwrpas y newidiadau hyn yw nodi'r sgiliau ar gyfer pob pwnc a'r modd y dylid eu datblygu a'u gweithredu y tu mewn i rychwant o gyd-destunau, cyfleoedd a gweithgareddau. Diweddarwyd y cynnwys hefyd er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i'r unfed ganrif ar hugain ac yn hawdd i'w drafod o safbwynt y dysgwyr a'r athrawon. Mae'r cwricwlwm yn barhad o'r Cyfnod Sylfaen a rhoddir pwyslais ar y fframwaith sgiliau ar draws y cwicwlwm, e.e. Meddwl, Cyfathrebu, TG a Rhif.

(c) Cynllun Gwelliant yr Ysgol 2009-2010

Mae pob ysgol yn cynhyrchu Cynllun Gwelliant yr Ysgol yn flynyddol. Y prif agweddau a nodwyd eleni oedd y canlynol:

- Diweddaru fformatiau **cynllunio'r cwricwlwm** ar gyfer athrawon fel y bo'r rheiny'n adlewyrchu'r newidiadau cenedlaethol a wnaed i'r cwricwlwm e.e. Cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a Chwricwlwm 2008.

- Sicrhau bod yr ysgol yn barod ar gyfer cyflwyno'r **Cyfnod Sylfaen** i ddisgyblion Blwyddyn 1 ym mis Medi 2010.

- Monitro'r addysgu a'r dysgu yn y pedwar **Pwnc Craidd** sef **Saesneg, Cymraeg** (yr adran Gymraeg yn unig), **Mathemateg** a **Gwyddoniaeth.** Trefnir cylch monitro blynyddol oddi mewn yr ysgol ar gyfer pob pwnc ac agwedd o'r cwricwlwm.

- Ymgymryd ag **archwiliad o adnoddau dysgu ac addysgu.** Yn sgîl yr archwiliad, er enghraifft, cafwyd y canlynol: saith gliniadur newydd, adnoddau dysgu hanes, teganau adeiladu, llefydd dysgu tu allan ac yn y blaen.

4. Arolwg o'r Ysgol gan Estyn

- Cafodd yr ysgol ei harolygu gan bump arolygwr rhwng 7fed–9fed o Fehefin, 2010. Yr arolygwr cofrestredig oedd Mr. Len Jones. Cynhaliodd gyfres o gyfarfodydd cyn yr arolwg e.e. y prifathro, aelodau staff, ymgynghorydd cyswllt y sir ar gyfer yr ysgol, llywodraethwyr a rhieni. Cyn yr arolwg casglwyd dogfennau megis ffurflen Gwybodaeth ynghylch Ysgolion Estyn, Adolygiad yr Ysgol Gyfan, Cynllun Gwelliant yr Ysgol, Cynlluniau

Gwaith,, croesdoriad o waith y disgyblion. Mae llawer o'r dogfennau eraill y gofynnwyd amdanynt e.e. polisïau, ar gael ar ein gwefan.

- Yn ystod yr Arolwg, rhoddodd yr arolygwyr sylw i'r saith Cwestiwn Allweddol yn y Fframwaith Arolygu presennol.

  Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

  Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

  Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

  Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i'r dysgwyr?

  Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

  Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae'r arweinwyr a'r rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

  Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

- Bydd Mr. Jones yn cynnal cyfres o gyfarfodydd ar ôl yr arolwg e.e. gyda'r prifathro, aelodau staff a'r llywodraethwyr. Cyhoeddir yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2010.

5. ADEILADAU A'R CYFFINIAU

Mae'r gwaith a wnaethpwyd eleni yn cynnwys:

- Ffens newydd i ffiniau allanol yr ysgol a gatiau newydd y tu blaen i'r ysgol
- Mae'r ysgol yn un o dair ysgol beilot yn y sir lle gosodwyd goleuadau arbed ynni
- Tô gwastad newydd ar gyfer y prif adeilad
- Peintio ac addurno

6. CYLLIDEB

Atodir y gyllideb ar gyfer 2009/2010.

7. YR YSGOL YN Y GYMUNED

Mae'r llywodraethwyr yn teimlo'n gryf y dylai'r ysgol fod yn ysgol gymunedol.

Defnyddir yr ysgol yn gyson gan y mudiadau canlynol:

- Cantorion Creigiau
- Cyfeillion yr Ysgol
- Yr Heddlu a Chymunedau ar y Cyd (P.A.C.T.)
- Merched y Wawr
- Prifysgol Caerdydd (Cwrs Cymraeg i Oedolion)
- Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerdydd a'r Fro
- Pilates
- Dawnsymarfer

Bu holl gymuned yr ysgol yn ymwneud â'r gweithgareddau canlynol:

- Cododd Apêl Plant mewn Angen y B.B.C. £739.96
- Trefnu casglu anrhegion ar gyfer "Cynllun Plant y Nadolig"
- Codi £1,100 ar gyfer Apêl Daeargryn Haiti
- Cymdeithas 'Neurofibromatosis' – yn ystod Tymor yr Hydref cododd yr ysgol gyfanswm o £850 trwy gyfrwng casgliad diolch am y cynhaeaf, cyngherddau Nadolig a chardiau aelodau staff
- Cododd gwerthiant Apêl y Pabi £80 a chododd Apêl y Daffodil Marie Curie £119.24
- Perfformiodd y côr mewn digwyddiad elusennol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf er budd Ymddiriedolaeth Llid yr Ymennydd
- Cefnogi addysg disgyblion yn Rwanda
- Cyfrannu bwyd a phethau ymolchi i elusen Wallich Clifford
- Partneriaeth agos â'r heddlu, e.e. P.C. Julia Smith (swyddog cydlynu ein hysgol)
- Gwahodd gweinidogion yr efengyl i'r ysgol
- Mae Cyfeillion yr Ysgol yn trefnu arddangosfa dân gwyllt lwyddiannus iawn yn ogystal â ras hwyl y pentref
- Rhaglen lwyddiannus ar gyfer oedolion sy'n gynorthwy-wyr gwirfoddol yn yr ysgol. Mae'r gefnogaeth hon yn werthfawr iawn ac yn gwella addysg y plant
- Daw rhieni ac eraill sy'n meddu ar wybodaeth benodol am bwnc arbennig i'r ysgol i siarad â'r plant

8. ASESU, COFNODI AC ADRODDIADAU

Atodir adroddiadau cryno asesiadau diwedd y Cyfnodau Allweddol

Gwneir llawer o gofnodi asesiadau yn electronig trwy ddefnyddio SIMS neu fersiwn wedi'i addasu o System Sirol Tracio'r Disgybl.

9. CYFLAWNIAD A CHYNHWYSIAD

Mae pob disgybl yn dda am wneud rhywbeth: dyna ethos yr ysgol. Mae hwn yn factor pwysig wrth ddatblygu hunan-barch a hyder yn y disgyblion.

Sefydlwyd nifer o strategaethau er mwyn cynorthwyo disgyblion sy'n cael trafferthion ar unrhyw adeg. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth 1:1 yn y dosbarth, athro sy'n gweithio am dri diwrnod, cyngor rhad ac am ddim gan Weithredu Dyslecsia sy'n gweithio yn yr ysgol am ddeuddydd bob wythnos, gwaith gwahaniaethol ac yn y blaen.

Mae hi yr un mor bwysig bod anghenion y disgyblion Mwy Galluog a Thalentog yn cael sylw hefyd. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys gwaith gwahaniaethol a thasgau penagored. Mae'n Dull Thematig hefyd yn galluogi plant i ymchwilio ar eu pen eu hunain yn yr ysgol a gartref. Ein nod yw datblygu plant sy'n ddysgwyr annibynnol sy'n mwynhau dysgu.

Mae gweithgareddau fel Yr Her Fathemateg, cystadlaethau ysgrifennu a chlybiau ysgol (gan gynnwys ein clwb papur newydd) yn rhoi cyfle i nifer o ddisgyblion sy'n awyddus i ddefnyddio'u talentau.

10. GWEITHGAREDDAU ALL-GWRICWLAIDD

- Pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, criced a chlwb rhedeg
- Côr, cerddorfa, yr Urdd, clwb papur newydd a chlwb gwyddbwyll
- Garddio
- Ymweliadau dros gyfnodau o wythnos neu benwythnos â Chanolfan yr Urdd yn Llangrannog
- Cyfarfodydd Eco Ysgol
- Cyfarfodydd Cyngor yr Ysgol

Mae'r llywodraethwyr yn dymuno cofnodi eu gwerthfawrogiad o waith holl aelodau staff a chynorthwy-wyr gwirfoddol yr ysgol am eu hymrwymiad a'u hymroddiad.

11. RHAI O LWYDDIANNAU'R YSGOL

- Llwyddo i gael statws "Ysgolion Iach"
- Y Grŵp Llefaru Ail Iaith a Mabli Tudur yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd
- Cael tair gwobr gyntaf ac un ail wobr yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd yng Nghaerdydd a'r Fro
- Dylan Lloyd Owen yn cael gwobr gyntaf mewn cystadleuaeth Gelf a drefnwyd gan y Sir
- Cynrychiolodd Gareth Powell dîm criced BL 5 Caerdydd a'r Fro
- Roedd Rhys Lewis yn ail yn y rhaglen deledu " Mastermind Cymru"
- Cafodd Ben Webb gêm brawf bêl-droed derfynol ar gyfer tîm y Sir.
- Roedd y tîm pêl-rwyd yn ail yn nhwrnamaint Sirol yr Urdd
- Roedd disgyblion o'r ysgol yn y deg safle uchaf mewn cystadleuaeth Rhedeg Traws Gwlad Brydeinig yng Nghaerdydd
- Llwyddodd yr ysgol i gyrraedd tair rownd derfynol yng nghystadleuaeth nofio genedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yng Nghaerdydd
- Chwaraeodd tîm pêl-droed y merched yn rownd derfynol cystadleuaeth bêl-droed Sirol a drefnwyd gan yr yr Urdd
- Ymateb a chanlyniadau ardderchog yn Yr Her Fathemategol

12. CYMDEITHAS RHIENI/ATHRAWON

Mae'r Gymdeithas hon yn rhan allweddol o gymuned yr ysgol. Mae'n cynorthwyo i ddarparu adnoddau y mae angen mawr amdanynt ac yn sybsideiddio costau teithio ar gyfer ymweliadau addysgol, trosglwyddo ac ymweliadau yn ymwneud â chwaraeon.

Yn sgîl cefnogaeth y Gymdeithas, llwyddwyd i brynu saith gliniadur a chyfrifiadur at ddefnydd dosbarth. Prynwyd adnoddau hefyd ar gyfer llefydd chwarae tu allan.

Dymuna'r llywodraethwyr gofnodi eu gwerthfawrogiad o waith caled y pwyllgor a'r amser a dreuliwyd yn mynychu cyfarfodydd a threfnu rhaglen amrywiol o weithgareddau.

Ni fyddai wedi bod yn bosib cael yr adnoddau uchod heb bwyllgor i drefnu gweithgareddau. Dewch i'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol ym mis Medi a chyflwyno eich enw i gynorthwyo'r Cyfeillion. Ein plant ni fydd ar eu hennill.

13. PRESENOLDEB

Cyfartaledd presenoldeb of fis Medi 2009 – Mai 2010:

	Sesiynau	**%**
Presenoldeb	106992	94.9
Absenoldeb awdurdodedig	5118	4.5
Absenoldeb anawdurdodedig	661	0.6
Presenoldeb posibl	112771	
Yn cynnwys		
Gweithgaredd Addysgol Awdurdodedig	10	0.0
Hwyrddyfodiaid cyn i'r gofrestr gau	293	0.3
Hwyrddyfodiaid ar ôl i'r gofrestr gau	67	0.1
Absenoldeb heb esboniad	0	0.0

14. NEWIDIADAU YM MHROSPECTWS YR YSGOL

- Newidiadau staffio
- Newidiadau i gyfrifoldebau rhai aelodau staff
- Cyflwyno Cyfnod Sylfaen i Fl 1 ym mis Medi 2010

15. DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU 2010/2011

CADWCH GOFNOD O'R DYDDIADAU HYN ER MWYN CYFEIRIO ATYNT MAES O LAW!

Tymor	**Tymor yn Cychwyn**	**Hanner Tymor Cychwyn**	**Hanner Tymor Gorffen**	**Diwedd Tymor**
Hydref 2010	Dydd Iau 02.09.10	Dydd Llun 25.10.10	Dydd Gwener 29.10.10	Dydd Gwener 17.12.10
Gwanwyn 2011	Dydd Mawrth 04.01.11	Dydd Llun 21.02.11	Dydd Gwener 25.02.11	Dydd Gwener 15.04.11

Haf 2011	Dydd Mawrth 03.05.11	Dydd Llun 30.05.11	Dydd Gwener 03.06.11	Dydd Gwener 22.07.11

Dyddiadau hyfforddiant mewn swydd:

Dydd Iau 2ail o Fedi 2010

Dydd Gwener 3ydd o Fedi 2010

Dydd Gwener 1af o Hydref 2010

Dydd Mawrth 4ydd o Ionawr 2011

Dydd Gwener 22ain o Orffennaf 2011

Bydd yr ysgol ar gau ar **ddydd Llun, Mai yr 2ail 2011** ar gyfer Gŵyl y Banc Calan Mai

Peter Evans
Pennaeth **16.06.10**